beicio cycle
cymru wales

Llwybrau Ar ac Oddi ar y Ffordd

Y De-ddwyrain

Ariennir yn Rhannol gan **Lywodraeth Cymru**
Part Funded by **Welsh Government**

Os cerwch feicio, cerwch y de-ddwyrain.

Mae'r de-ddwyrain wedi dod yn hoff gyrchfan gan feicwyr ffordd proffesiynol ac amatur. Hoffech chi ddringo elltydd? Mae gennym ni rai! Mae gennym lawer o lwybrau ffordd heriol sy'n dringo'n uchel trwy rai o olygfeydd mwyaf ysbrydoledig ein gwlad. A phe hoffech ffeirio tarmac am rywbeth mwy naturiol, mae gennym gannoedd o filltiroedd o lwybrau mynydd a choedwig i chi ddewis ohonynt.

I'ch helpu i gynllunio'ch antur nesaf, rydym wedi creu map rhyngweithredol ar-lein a'i gwna'n haws fyth i chi chwilio'r fro ar eich beic. Gwyliwch am y symbolau RhBC (Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol) sydd ar y mwyafrif o safleoedd: maen nhw'n ddefnyddiol iawn ar gyfer canfod eich ffordd.

2016 VELOTHON WALES
www.velothon-wales.co.uk

TOUR OF BRITAIN
www.tourofbritain.co.uk

JUNIOR TOUR OF WALES
www.juniortourofwales.org

ABERGAVENNY Festival of Cycling
www.abergavennyfestivalofcycling.co.uk

Mae'r de-ddwyrain eisoes yn cynnal sawl ras amlwg ar gyfer beicwyr proffesiynol ac amatur fel ei gilydd. Mae miloedd o feicwyr unigol a thimau'n dod i'n hardal i gystadlu mewn rasus fel Felothon Cymru. Dechreua'r ras yng Nghaerdydd, gan ddenu hyd at 18,000 o feicwyr yn y dosbarth Sbortif, gyda thimau a beicwyr proffesiynol mwyaf clodfawr y byd yn cynnig ar gyfer y Ras Broffesiynol.

Cam Felothon Cymru - Aberdâr

Cynlluniwch eich antur feicio nesaf â'n Map Rhyngweithredol ar-lein

Mae ein Map Rhyngweithredol ar gyfer cyfrifiaduron yn hanfodol ar gyfer unrhyw un sydd am chwilio'r de-ddwyrain ar ddwy olwyn. I lansio'r map, cliciwch ar yr eicon neu defnyddiwch y ddolen ganlynol yn eich porwr:

www.beiciocymru.org

Bwyta ac Yfed | Gweld | Llety | Toiledau | Trwsio

Mae'r Map Rhyngweithredol yn llawn gwybodaeth. Dyma gannoedd o lwybrau beicio ar gyfer pob gallu, cyfeiriadau defnyddiol at gaffis a chestyll, llety dros nos, pethau diddorol i'w gweld a'u gwneud, a siopau beiciau ar gyfer darnau sbâr a thrwsio.

Blaenau Gwent | Bridgend | Caerphilly Caerffili | Cardiff Caerdydd | Merthyr Tydfil | Monmouthshire sir fynwy | Newport Casnewydd | Rhondda Cynon Taf | Torfaen County Borough | Vale of Glamorgan Bro Morgannwg

beicio cycle
cymru wales

Cliciwch yma i lansio'r Map Rhyngweithredol

Mae gan y Fenni draddodiad hir o gynnal rasus beicio, ac fe'i dewiswyd unwaith yn rhagor ar gyfer cam o Gyfres Cylchdaith Ddethol Beicio Prydain 2016. Y ras feicio broffesiynol hon yw diweddglo 'Gŵyl Feicio'r Fenni'.

Pencampwriaeth Beicio Ffordd Genedlaethol Prydain 2014 - Sir Fynwy

Trawsfeicio - Sir Fynwy

Os hoffech yr heriau corfforol eithafol y mae trawsfeicio'n eu cynnig, mae llawer o gynghreiriau cyfundrefnol i gystadlu ynddynt ledled y de-ddwyrain. Cewch ragor o fanylion trwy ymweld â'r wefan ganlynol:

www.ukcyclocrossevents.co.uk

Sbortif Trawsfeicio 40 Sir Fynwy

Byddwch barod i addoli eich eilunod wrth i Gam 5 Tour of Britain 2016 ddechrau yn y de-ddwyrain yn Aberdâr, yna ar draws y de a thrwy Fforest y Ddena i Swydd Gaerloyw cyn diweddu yng Nghaerfaddon, am y tro cyntaf i'r ddinas honno.

Pob Ionawr mae'r de-ddwyrain yn cynnal ras Sbortif Trawsfeicio 40 milltir Sir Fynwy. Mae'r ras ddycnwch hon, fel arfer o gwmpas cylch anodd 1.5km (1 filltir), yn berffaith ar gyfer beicwyr nad oes ots ganddynt ychydig faw, boed hynny ar y cyfrwy neu oddi arno !

Weithiau gall fod a wnelo beicio mwy â'r daith nag â'r ras. Mae, yn llythrennol, miloedd o ffyrdd gwledig distaw i'w reidio yn y de-ddwyrain: dewiswch o ddringfeydd mynydd heriol, llwybrau prydferth llawr gwlad, a hyd yn oed ffyrdd glan môr gyda thraethau hardd lle gallwch aros a gorffwys.

Yn 2016 mae'r de-ddwyrain yn cynnal Felothon Cymru. Bydd hyd at 18,000 o feicwyr yn ymuno yn Sbortif trydydd mwyaf y DU ar hyd lladdfa o lwybr 140km sy'n dechrau yng Nghaerdydd gan fynd trwy Gasnewydd, Brynbuga, Pont-y-pŵl a Chaerffili cyn darfod yn ôl yng Nghaerdydd.

Pencampwriaeth Beicio Ffordd Genedlaethol Prydain 2014 - Sir Fynwy

Pencampwriaeth Beicio Ffordd Genedlaethol Prydain 2014 - Sir Fynwy

beicio cycle
cymru wales

Cliciwch yma i lansio'r Map Rhyngweithredol

Bro Morgannwg yw cyfrinach fwyaf diogel y de-ddwyrain, debyg. Mae Llwybr 88 y RhBC yn agos at y lan yma, ac yn cynnig i'r beiciwr ffordd profiadol hyd gwastad iawn a chyflym o ffordd â golygfeydd anhygoel ar hyd prydferthwch naturiol enwog Arfordir Treftadaeth Morgannwg.

Arfordir Treftadaeth Morgannwg - Bro Morgannwg

Ariennir yn Rhannol gan **Lywodraeth Cymru**
Part Funded by **Welsh Government**

Mae Visit Wales wedi dynodi 2016 yn 'Flwyddyn Antur' Cymru.

Yn rhan o hyn, mae 10 Awdurdod Lleol y de-ddwyrain yn gweithio'n bartneriaeth er mwyn hyrwyddo atyniadau ymwelwyr a chynhyrchion yn well trwy rwydwaith llwybrau beicio'r fro. Cefnogir y prosiect gan Visit Wales Llywodraeth Cymru trwy'r Gronfa Partneriaeth ar gyfer Twf. Sefydlwyd hon er mwyn helpu atyniadau ledled Cymru i hyrwyddo a datblygu'r arlwy dwristiaeth, gan annog rhagor o bobl i ymweld â Chymru.

Llwybr Taf - Caerdydd i Aberhonddu

Llwybr Taf yw'r geiriosen ar deisen feicio'r de-ddwyrain. Mae'r llwybr 88km wyneb cymysg yn dechrau yn y brifddinas ac yn ymlwybro trwy gymoedd cyfoethog eu treftadaeth i ddiweddu yn hen dref farchnad brydferth Aberhonddu. Gallwch feicio'r cyfan mewn un diwrnod, ond i chi ddechrau'n fuan a darfod yn hwyr !

Y Tymbol - Blaenafon

Mae'r llwybr 'Tymbol' chwedlonol yn mynd â beicwyr i fyny dringfa 6km graddiant 10%. Mae'n rhan reolaidd o rasus beicio, ac wedi'i rhestru ymhlith 100 Dringfa Feicio Gorau Prydain. Mae'r ymdrech yn talu'n dda, gan fod y golygfeydd o ben y Blorens yn drawiadol.

Cylchdaith y Pedwar Castell - Sir Fynwy

Mae'r gylchdaith ffyrdd Pedwar Castell 52km yn cynnwys sawl dringfa heriol heibio i gestyll y Fenni, Ynysgynwraidd a'r Grysmwnt. Er nad yn anodd iawn, mae'n addasach ar gyfer beicwyr profiadol sydd wedi arfer â rhannu'r ffordd â thraffig arall.

Mae bylchau bryniau'r Cymoedd, a'u dringfeydd igam-ogam, serth yn aml, yn rhoi i'r selogion ffyrdd cymaint o brofiad dringo rhiwiau ag y gallent ei ddymuno. Mae tri llwybr nodedig yn y de-ddwyrain y gallwch roi cynnig arnynt: Bwlch-y-clawdd rhwng Cwm Ogwr a'r Rhondda Fawr; Bwlch y Rhigos rhwng y Rhondda Fach a Chwm Cynon; a'r bwlch rhwng Maerdy ac Aberdâr - pob un yn ffefryn gyda'r beiciwr ffordd ymroddedig.

Bwlch-y-clawdd - Rhondda Fawr i Gwm Ogwr

Mae llawer llwybr trefol i'w ddarganfod yn ein dinasoedd yn y de-ddwyrain. Rhowch gynnig ar y 'Llwybr y Bae' poblogaidd, cylchdaith 10km sy'n cynnwys holl atyniadau Bae Caerdydd trwy Bont y Werin a'r morglawdd.

Llwybr y Bae - Caerdydd